YR UNIG IACHÂD AR GYFER Y DDYNOLIAETH GLAF

Nodyn i'r siaradwr:

Eglurwch mai pechod ydi gwreiddyn holl ddrygau/anffodion ac afiechydon corfforol, meddyliol, moesol, a chymdeithasol y ddynoliaeth ac mai trwy gyfrwng Teyrnas Dduw yn nwylo Crist Iesu y mae'r unig iachâd. Dangoswch fel y bydd y Deyrnas yn symud ymaith holl effeithiau pechod, a rhybuddiwch y bydd yn gweithredu'n fuan i ddifa pawb sy'n rhan o fyd afiach Satan. Ysgogwch bawb i geisio gwellhad ysbrydol 'nawr drwy gydymffurfio'u bywydau â gofynion cyfiawn Duw

Y DDYNOLIAETH YN GLÂF MEWN CYMAINT O FFYRDD (9 mun.)

Afiechydon corfforol: clefyd y galon, cancr, afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, plâu trofannol, ac yn y blaen (*tp* 19-20; *g*90 2/8 28; *g*89 12/8 3-4, 31; *g*84 10/22 7)

AID(S):(Afiechyd Imiwnedd Diffygiol) yn Affrica (*g*92 8/8 3-4); ymhlith plant (*g*91 7/22 3-8); yn gyffredinol (*g*88 10/8 2-15)

Afiechydon meddyliol: iselder ysbryd (*w*90 3/1 3-4; *g*87 10/22 2-16); sgitsoffrenia (*g*86 9/8 3-10)

Drygau moesol: dibyniaeth ar gyffuriau a defnyddiau eraill tebyg (*g*90 7/22 3-9; *g*88 12/8 3-12); anfoesoldeb rhywiol (*yp* 181-2, 184; *g*89 1/22 7-11; *w*88 4/15 3-4, 6)

Drygau cymdeithasol: hilyddiaeth, trais, casinebau crefyddol, llygredd gwleidyddol a mathau eraill o lygredd, a phob math o drosedd (*w*89 8/15 3-4; *g*89 4/22 3-6)

Yr amodau yn gwaethygu er gwaethaf bwriadau da dyn

Rhagfynegodd Iesu y byddai "gwewyr" yn dilyn cychwyn dyddiau diwethaf trefn bresennol pethau/yr oes bresennol (Mth 24:8)

Esiampl o amodau'n gwaethygu fel y rhagfynegwyd ar gyfer y dyddiau diwethaf: torcyfraith, trais (Mth 24:12; 2Tim 3:3, 13)

Cyfanswm troseddau difrifol crybwylledig yn yr Unol Daleithau wedi cynyddu dros 1,000 y cant rhwng 1935 a 1980, tra na chynyddodd y boblogaeth ond tua 78 y cant yn ystod yr un cyfnod, ac mae nifer troseddau yn dal i gynyddu (*w*90 10/1 5; *w*83 6/1 6)

Nid yw meddyginiaethau dynol ar gyfer afiechydon a drygau'r ddynoliaeth yn effeithiol

Wrth iddo ystyried mor ddinistriol a phell-gyrhaeddol oedd effaith y rhyfel byd cyntaf, fe fedrai'r St. Louis *Post-Dispatch*, ac nid heb reswm, ddweud: "Trawyd gwareiddiad yn 1914 gan salwch oedd yn greulon ac efallai'n farwol"

Wrth ymweld ag Awstralia fe ddywedodd un o swyddogion Cyngor Eglwysi'r Byd: "Mae pawb fel petaen' nhw'n chwilio am rhyw panacea, rhyw feddyginiaeth holliachaol fydd yn sicrhau dihangfa rhag ein holl bryderon. . . . Yn ystod dros 30 mlynedd o gysylltiad â'r rhan fwyaf o'r byd, ni ddeuthum o hyd iddo."—Sydney *Morning Herald*

Gan gyfeirio at natur ddisyflyd afiechydon a drygau'r ddynoliaeth fe sylwodd un gohebydd papur newydd: "Mae'r math o drais 'rydym 'nawr yn ei brofi yn dweud wrthym fod meddwl a chalon, union gelloedd gwaed cymdeithas yn sâl. Mae'r sefydliadau sy'n dal gwareiddiad wrth ei gilydd yn methu."—New York *Post*

Y RHESWM DROS AFIECHYDON A DRYGAU DYNOLIAETH (8 mun.)

Mae Jehofah Dduw yn Greawdwr cyfiawn, doeth, hollalluog a chariadus

Fe wnaeth ei holl weithredoedd, gan gynnwys dyn, yn berffaith (Deut 32:4)

Ei bwrpas ar gyfer y ddynoliaeth: mwynhau bywyd ym Mharadwys, gweithredu'r ewyllys ddwyfol (Gen 1:26-28; 2:15)

Gwrthryfelodd Satan, gan annog Adda ac Efa i ymuno ag ef (Gen 3:1-6)

Oddi ar hynny darostyngwyd y ddynoliaeth i oferedd, gan fethu ag ymdopi â phechod cynhenid a'i ddrygau ac afiechyd (Rhuf 5:12; 8:20, 22)

Er y dysgir fod dyn wedi esblygu, mae'r Ysgrythurau yn dweud yn eglur i'r gwrthwyneb—mab Duw oedd dyn yn wreiddiol ac mae wedi dirywio/mae'n ddirywiedig

Sylwodd yr archaeolegydd O. D. Miller: "Diau i'r hen ddysgeidiaeth am ddirywiad diweddarach, am gyflwr dirywiedig trist yr hil ddynol, o gyflwr gwreiddiol hapusrwydd a phurdeb, ymgorffori gwirionedd mawr, ond truenus. Mae'n amlwg fod angen cyflwyniad newydd ar . . . ein hathroniaethau modern ynglŷn â hanes." (*it*-2 303)

Mae llawer yn gofyn pam fod Duw wedi caniatáu i ofidiau barhau (Hab 1:2, 3; *ce* 188-96; *rs* 428-9)

Fe gododd y gwrthryfel gwestiwn dilysrwydd a chyfiawnder awdurdod brenhinol cyfanfydol Jehofah (Eseia 33:22)

Yn sgil hyn hefyd mae'r cwestiwn yn codi a fydd creadur yn medru cadw uniondeb fel y gwelir yn ymffrost Satan (Job, penodau 1, 2)

Ni fyddai bod wedi dienyddio Satan, Adda, ac Efa adeg y gwrthryfel wedi ateb y pwnc dadl a godwyd gan Satan

'Roedd angen amser i brofi bod ymffrost Satan yn ffals (Ex 9:16)

'Roedd angen amser hefyd i ganiatáu i ddyn ddangos ei anallu i'w reoli ei hun ar wahan i'w Wneuthurwr (Preg 8:9; Jer 10:23)

TEYRNAS DDUW YW'R IACHÂD ADDAWEDIG AR GYFER Y DDYNOLIAETH GLAF (9 mun.)

Golygodd pechod Adda iddo golli hawliau bywyd iddo ef ei hun ac i'w ddisgynyddion

'Rydym oll yn amherffaith, 'does neb yn gallu adfer yr hawliau hynny (Salmau 49:7-9)

Darparwyd y sail cyfreithiol ar gyfer maddau pechod yn aberth bridwerthol Crist (Mth 20:28; Rhuf 3:25, 26; *it*-1 606)

Gan mai Duw oedd ei Dad 'roedd Iesu yn berffaith, heb bechod (*it*-2 56)

Ildiodd ei fywyd er lles pawb sy'n arfer ffydd (1In 3:16)

Gwobrwywyd Iesu am gadw uniondeb drwy gael ei wneud yn Frenin Teyrnas Dduw

Mae iachâd y ddynoliaeth i ddod drwy gyfrwng y Deyrnas a grybwyllir yn fuan wedi pechod Adda (Gen 3:15)

Yr Had Addawedig i ddod drwy Abraham, Jwda, Dafydd (Gen 22:17, 18; 49:10; 2Sam 7:12)

’Roedd teyrnasiad Solomon yn rhagarwyddo brenhiniaeth y Meseia (1Bren 4:25; Salmau 72)

’Roedd llawer o broffwydoliaethau yn cyfeirio at y Deyrnas hon: Salmau 2; 45; 110

Tystiolaeth Iesu Grist: Mth 6:10; Lc 23:42, 43

Tystiolaeth yr apostol Paul: Rhuf 8:20, 21; 1Cor 15:24, 25, 28

Ni all geiriau Jehofah fethu (Eseia 55:10, 11)

MAE GWEITHREDOEDD JEHOFAH YN PARATOI’R FFORDD AR GYFER IACHÂD DYNOLRYW (15 mun.)

Mae Jehofah Dduw yn sicr o weithredu oherwydd fod ei enw ynghlwm yn hyn

O lyfr Exodus i lyfr Eseciel, mae Duw yn dweud dros 70 o weithiau, ‘Byddant yn gwybod mai myfi yw’r ARGLWYDD [Jehovah-*NW*]’

Mae heddwch a lles y ddynoliaeth yn dibynnu ar sancteiddio enw Duw (*it*-2 16-18)

I iachâu’r ddynoliaeth, mae’n rhaid i Jehofah ddileu holl elynion Duw a dyn

Dienyddiodd Jehofah Dduw y drwg yn yr hen amser

Adeg y Dilyw (Gen 6:5-8; 7:23)

Dienyddwyd Sodom a Gomorra drwg (Gen 19:25)

Dinistriwyd Jerwsalem anffyddlon ddwywaith: yn 607 C.C.C. (Cyn y Cyfnod Cyffredin) a 70 C.C. (2Bren 25:8-11; Lc 19:42-44)

Hyn yn rhagfynegi difa’r drygionus yn y dyfodol yn ystod y “gorthrymder mawr” (Lc 21:25-27; Dat 7:14)

Rhagfynegodd Ioan mai “Babilon Fawr,” ymerodraeth fyd eang gau grefydd, fyddai’n cael ei difa gyntaf (Dat 17:5, 16, 17)

Yna fe fyddai rhannau eraill byd Satan yn dilyn (Dat 19:11-21)

Mae’r amser gerllaw

Mae cyflwr presennol y byd yn bygwth bodolaeth dyn (*w*90 7/1 3-4; *g*90 2/8 31)

Mae cyflawniad proffwydoliaethau’r Beibl yn cyfeirio at ein dyddiau ni (Mth 24; Mc 13; Lc 21; 2Tim 3:1-5)

Bydd Iesu Grist a’i 144,000 o gyd reolwyr yn teyrnasu am 1,000 o flynyddoedd (Dat 14:1, 3; 20:4, 6)

Bydd yn adfer perffeithrwydd meddyliol, corfforol, ysbrydol a moesol i’r ddynoliaeth (Dat 21:3, 4; Eseia 11:9; *ws* 174-9)

Bydd hefyd yn atgyfodi pawb sydd yn y beddrodau (y rheiny sydd yng nghof Duw) (In 5:28, 29; Act 24:15)

Dinistrir y gelyn olaf, angau (1Cor 15:25, 26; *w*86 10/1 13; *ka* 159-60)

DERBYN LLES YR IACHÂD YSBRYDOL ’NAWR (4 mun.)

Cymeryd i mewn wybodaeth Feiblaidd (Salmau 119:105; In 17:3; *w*76 562-3)

Unioni’n bywydau yn ôl gofynion cyfiawn Duw (1Pedr 3:10-12; *w*75 292-3; *w*73 331)

Ceisio gostyngeiddrwydd, ceisio cyfiawnder (Seff 2:3; 1Tim 4:8; *w*82 4/1 30-1)

Addoli’r Creawdwr, Jehofah Dduw (Dat 4:11; *w*90 12/1 6-7)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. ’Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)